WG35.5 33

# MARWNAD,

NEU

## BARCHUS GOFFADWRIAETH,

AM

# MRS. DAVIES,

Gwraig y Parch. WILLIAM DAVIES,

*Gweinidog yr Anymddibynwyr*

YN LLANYMDDYFRI, SIR GAERFYRDDIN,

YR HON

A hunodd yn yr Arglwydd Gorph. 9, 1830, yn 25ain oed.

---

"Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd."

---

GAN WILLIAM THOMAS.

---

LLANYMDDYFRI:
ARGRAFFWYD GAN D. R. a W. REES.
1830.

X205 304472

# MARWNAD.

1.

MAE brenin dychryniadau
  A'i gleddau'n tramwy'n gwlad,
Gan dorri'r pererinion
  Mewn creulon rwysg a brad,
A gwanu'i sythion saethau
  I g'lonnau dynolryw,
A'u rhoi heb un drugaredd
  I'r bedd o ŵydd y byw.

2.

Mae'n tramwy'r byd o ddeutu,
  Gan dorri ar y de,
A thorri ar yr aswy,
  Heb ofal pwy na ph'le;
Nid yw yn parchu gronyn
  Ar frenin mawr ei fri,
Yn fwy na'r gwael gardottyn
  Sy'n myn'd o dŷ i dŷ.

3.

Ym mysg y rhwygiad dirfawr
A wnaeth yr angau llym,
Fe deithiodd yn ddiweddar
Mewn creulon rwysg a grym
I ardal Llanymddyfri,
Gan dorri GWRAIG dêg wedd,
Oddiwrth ei gwr anwylgu,
I bydru yn y bedd.

4.

Y fwynaidd Feistres DAVIES
A ga'dd ei thorri lawr
Gan gledd yr angau gerwin,
Hen elyn bach a mawr,
A'i rhoi mewn priddlyd wely,
A llymaidd letty llaith,
I huno yno ennyd,
Nes cyfyd Iesu'r caeth.

5.

Hi fu dan law gystuddiol
Penllywydd mawr y byd,
Am lawer o wythnosau,
Yn godde'n fwyn o hyd;
Ni dd'wedodd air rhyfygus
Yn erbyn Brenin nef,
Ond hollol ymostyngai
I'w lân ewyllys ef.

6.

Ond ar ol diodde'n nychlyd,
  Fe ddaeth yr hyfryd awr,
I'w dwyn ar aden cariad
  O wlad y cystudd mawr,
Tuhwnt i bob gofidau,
  A'r gwaeau oer i gyd,
I gôl ei Phriod siriol,
  I'r nefol fythol fyd.

7.

Y nawfed o Orphenaf
  Y daeth y gennad hŷ,
I ddryllio'i phriddlyd babell
  I'w rhoi'n y ddaear ddu;
A phan yr oedd yn 'madael,
  A gadael byd y gwawd,
Mae'n cred fod ganthi Gyfaill
  A lyna'n well na brawd.

8.

Ni fu ym myd y gofid
  Ond megis ennyd awr;
Ni cha'dd ond braidd blodeuo,
  Ac yna gwywo'i gwawr;
Ni fu ond megis cysgod
  Ar hynod ddydd o ha',
Ei gyrru ga'dd i'r gweryd
  O'r blinfyd mawr ei bla.

9.

Rai oriau cyn ymadael
  Mor hyfryd oedd ei llais,
Yn moli'i hanwyl Geidwad,
  A'i gammol yn barhaus;
Gan ddweyd fod ei drugaredd
  Yn rhyfedd ar ei rhan,
A'i gadarn fraich o dani
  Yn dal ei henaid gwan.

10.

Ac hefyd 'roedd yn diolch
  O hyd i'w Harglwydd mawr,
Am iddo ei chystuddio
  Tra'r oedd hi ar y llawr;
Ac O! mor amyneddgar
  Y daliodd dan ei phoen,
Mewn hyder o gael myned
  I gwmp'ni'r aeddfwyn Oen.

11.

Ac felly 'nol ei phuro
  Ym mhair y cystudd blin,
A bod dan law geryddol
  Yr Arglwydd mawr ei hun,
Hi ga'dd ryddhad o'i beichiau,
  A'i dwyn o boenau'r byd,
I fynwes glyd ei Pherchen,
  Yn llawen heb ddim llid.

12.

Hi aeth dan faner Iesu
  Cyn bod yn bymtheg oed,
Milwriodd yn y fyddin
  Heb unrhyw warth erioed,
A darfu weled terfyn
  I'r blin ryfeloedd maith,
A gweled buddugoliaeth
  Yn d'od ym mhen y daith.

13.

Yn lle y byd o ofid,
  Ca'dd feddu gwynfyd gwiw,
A'i dwyn o ddyffryn galar
  I dringar fynwes Duw;
Troes chwerwon ddyfroedd Mara
  Yn hyfryd felus win,
A holl awelon blinfyd
  A droes yn hyfryd hin.

14.

Fel 'roedd yn cammol crefydd
  Pan oedd ar fin y dw'r,
Mai dyna sail ei gobaith
  Rhag suddo yno'n siwr;
A'r Graig oedd ganthi'n sylfaen
  I ddal ei henaid gwan,
Oedd Iesu'r Bugail ffyddlon
  Fu'n dirion ar ei rhan.

15.

Fe'i cariwyd i Lantrisant,
 I swydd Forganwg fawr,
I roi ei chorph i bydru,
 A llechu yn y llawr;
Caiff huno gyda'i thadau,
 A'i hoff berth'nasau 'nghyd,
Nes delo'r Arglwydd Iesu
 I farnu hyn o fyd.

16.

Y noswaith cyn ei chludo
 O'r *Cerrig* tua'r llan,
Pregethodd tri gwr doniol
 Yn fuddiol yn y fan;
Yng nghyntaf Jones o Hermon,
 A Davies* bur ei ddawn,
A Rowlands o Gwmllynfell,
 Mewn modd sylweddol iawn.

* Sardis.

17.

Nid oedd ond pump-ar-hugain
 Pan aeth i'r ddae'ren ddu,
Yr hyn lafara beunydd
 Fel rhybudd dwys i ni,
I geisio bod yn barod
 Cyn dyfod angau glas,
Gan guro am drugaredd
 Wrth ryfedd orsedd gras.

18.

Diddaner ei holl geraint
  Gan Frenin mawr y nef,
Ei gwr a'i geneth fechan
  A gaffo'i wyneb ef;
A'i holl berth'nasau ereill
  Sy'n wylo'n drist o hyd,
A fyddo dan reolaeth
  Hael Bennaeth mawr y byd.

19.

A boed i Dduw y lluoedd
  Ymwel'd â bobloedd byd,
A'u dwyn i wel'd eu diwedd,
  Gan geisio hedd o hyd;
Boed in' gael treulio'n bywyd
  Yn hyfryd is y nen,
Ac yna gwlad gogoniant
  I'n mwyniant fyth, Amen.

D. R. a W. Rees, Argraffyddion, Llanymddyfri.